# Ceisiadau am wybodaeth

*26/07/2012*

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Ceisiadau am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 28 Mehefin. Byddaf yn ateb pob rhan o'ch cais yn ei thro isod.

*Ar gyfer pob un o'r blynyddoedd rhwng 2005 a 2012, gan gynnwys y blynyddoedd hynny, (hynny yw, 2005, 2006, 2007, 2008, 2009, 2010, 2011 a 2012 hyd yma), faint o geisiadau y mae eich sefydliad wedi'u cael o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth? Faint o'r ceisiadau hynny yr ymatebwyd iddynt o fewn y cyfnod o 20 diwrnod gwaith? Mewn sawl achos y bu eich ymatebion i gais Rhyddid Gwybodaeth yn destun adolygiad mewnol?*

| Blwyddyn | Nifer y ceisiadau a ddaeth i law | Ymatebion a anfonwyd ar ôl 20 diwrnod | Ymatebion a anfonwyd ar ôl 20 diwrnod (er gwybodaeth, gellir ymestyn y cyfnod hwn er mwyn ystyried y budd i'r cyhoedd mewn perthynas ag eithriadau) | Nifer yr adolygiadau mewnol |
|---|---|---|---|---|
| 2005 | 56 | 2 | 2 | 0 |
| 2006 | 49 | 3 | 0 | 2 |
| 2007 | 42 | 1 | 1 | 1 |
| 2008 | 51 | 13 | 1 | 0 |
| 2009 | 53 | 6 | 1 | 3 |
| 2010 | 52 | 8 | 5 | 0 |
| 2011 | 71 | 24 | 8 | 0 |
| 2012 | 44 | 4 | 3 | 0 |

*A fu newid yn nifer yr aelodau staff sy'n gweinyddu'r ymatebion i'ch ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth?*

Rydym wedi gwneud newidiadau i'r sefydliad sydd wedi peri i waith gael ei ddyrannu i aelodau gwahanol o'r staff. Er hynny, nid yw nifer yr aelodau staff

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 8215
E-bost/Email:Alison.Rutherford@cymru.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

sy'n ymwneud â'r gwaith gweinyddol o brosesu ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi newid.

*Faint y mae wedi'i gostio i'ch sefydliad bob blwyddyn i ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth?*

Nid oes gennym gofnod o'r gost o ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

*A yw eich sefydliad bellach yn cyhoeddi mwy o'r data y mae'n eu cadw'n ganolog nag yr oedd yn 2005?*

Ydy. Er enghraifft, caiff holl dreuliau Aelodau'r Cynulliad eu cyhoeddi'n fisol bellach. Gallwch weld hyn yn:
http://www.cynulliadcymru.org/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-expenses-2.htm
ac ar ein gwefan: http://www.cynulliadcymru.org/

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm. Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Alison Rutherford**
**Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/help/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Alison Rutherford**
**Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**